# Trefniadau drafft gwerthuso a gwella (atebolrwydd) ar gyfer Cymru


ADDYSG CYMRU
EDUCATION WALES
cenhadaeth ein cenedl | our national mission

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

## Trosolwg o’r trefniadau

Bydd y trefniadau newydd hyn yn helpu i gyflwyno’r newid diwylliannol sydd ei angen i gefnogi gwireddu’r cwricwlwm newydd. Wrth wraidd y trefniadau mae hunanwerthuso cadarn a pharhaus ar gyfer pob haen o’r system addysg, ynghyd â deialog broffesiynol i gefnogi dysgu a gwella, sefydlu cydweithio, adeiladu ymddiriedaeth, gyrru hunanwella, a chodi safonau ar gyfer pob un o’n dysgwyr.

## Cylch gwerthuso a gwella




| | Ysgolion | Awdurdodau lleol | a Chonsortia rhanbarthol | Llywodraeth Cymru |
|---|---|---|---|---|
| **Hunanwerthuso** | Hunanwerthuso gan ddefnyddio’r pecyn cymorth cenedlaethol hunanwerthuso ar gyfer gwella i helpu ysgolion adnabod eu cryfderau a’u blaenoriaethau ar gyfer gwella gan ddefnyddio data meintiol ac ansoddol. | Hunanwerthuso gan ddefnyddio blaenoriaethau *Cenhadaeth ein cenedl*, nodau corfforaethol a strategol gwella ysgol, ansawdd a darpariaeth addysg, a’r meini prawf a gytunwyd o safbwynt llwyddiant cyllid grant. | Hunanwerthuso gan ddefnyddio blaenoriaethau *Cenhadaeth ein cenedl*, nodau gwella ysgol a gytunwyd yn rhanbarthol a’r meini prawf a gytunwyd o safbwynt llwyddiant cyllid grant. | Hunanwerthuso gan ddefnyddio blaenoriaethau *Cenhadaeth ein cenedl*, strategaeth Llywodraeth Cymru a diwygio addysg. |
| **Cynllunio i wella** | Canlyniad y broses hunanwerthuso i fod yn sylfaen i’r cynllun datblygu ysgol. | Canlyniad y broses hunanwerthuso i fod yn sylfaen i drefniadau cynllunio corfforaethol yr awdurdod lleol. | Canlyniad y broses hunanwerthuso i fod yn sylfaen i gynllun busnes y consortia rhanbarthol - i’w gytuno gan y Cyd-Bwyllgor. | Canlyniad y broses hunanwerthuso i fod yn sylfaen i ddatblygiad polisi a gwella trefniadau cynllunio. |
| **Cyhoeddi crynodeb o gynllun gweithredu a blaenoriaethau** | Gweithredu a chefnogaeth yn mynd yn eu blaen gydag ymgysylltiad cymheiriaid. Cyhoeddi blaenoriaethau’r cynllun datblygu ysgol. | Cyhoeddi canfyddiadau a chamau gweithredu allweddol ynghyd â threfniadau cynllunio corfforaethol. Gweithredu a chefnogaeth yn digwydd gydag ymgysylltiad cymheiriaid. | Cyhoeddi canfyddiadau a chamau gweithredu allweddol ynghyd â chynllun busnes. Gweithredu a chefnogaeth yn digwydd gydag ymgysylltiad cymheiriaid. | Cyhoeddi canfyddiadau a chamau gweithredu allweddol.<br>Gweithredu yn digwydd gyda rhanddeiliaid allweddol a sefydliadau haen ganol. |
| **Dilysiad** | Consortia rhanbarthol i ddilysu’r hunanwerthuso a dangos ei fod yn adlewyrchiad gwir o gryfderau’r ysgol a meysydd i’w gwella. | Herio ac adolygu gyda Llywodraeth Cymru.<br>Trefniadau mewnol Cyngor ar gyfer ymgysylltu a llywodraethu. | Herio ac adolygu gyda Llywodraeth Cymru.<br>Ymgysylltu Cyd-Bwyllgor. | Adborth gan randdeiliaid.<br>Adolygiad cymheiriaid cenedlaethol a rhyngwladol. |
| **Arolygiad a chyngor** | Dilysu drwy arolygu a rheoleiddio. | Dilysu drwy arolygu a rheoleiddio. | Dilysu drwy arolygu a rheoleiddio. | Craffu democrataidd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. |

**Egwyddorion:** Teg | Cydlynol | Cymesur | Tryloyw

OGL WG36631
© Hawlfraint y Goron Chwefror 2019
© Crown copyright February 2019